# CASTELL-NEDD I GIMLA
# GWELLIANNAU TEITHIO LLESOL ARFAETHEDIG

## MESURAU ARFAETHEDIG I'W RHOI AR WAITH



### LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO

Mae llwybr cyd-ddefnyddio yn llwybr sydd ar gael i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. Mae'n cynnig defnydd hyblyg sy'n gallu darparu ar gyfer gwahanol fathau o symud ar wahân i gerbydau modur.



### CYRBAU ISEL A PHALMANT CYFFYRDDOL WRTH GROESFAN ANFFURFIOL

Mae arwynebau uchel y gellir eu teimlo o dan draed yn rhybuddio ac yn tywys pobl ddall neu rannol ddall.



### CROESFAN TWCAN AR GYFER CERDDWYR A BEICWYR (Â SIGNALAU)

Mae croesfannau twcan yn groesfannau cyd-ddefnyddio i gerddwyr a beicwyr â symbolau coch a gwyrdd fel rhan o'r uned gwasgu botwm. Mae technoleg ganfod wedi'i hymgorffori sy'n addasu'r amser a ganiateir i groesi, gan ddibynnu ar gyflymder cerddwyr.



### STRYD DAWEL AR GYFER BEICIO AR Y FFORDD

Mae stryd dawel yn llwybr beicio trefol lle mae'r traffig yn symud yn araf/nad oes llawer o draffig ac mae dyluniad y ffordd yn ei gwneud yn addas ar gyfer beicwyr newydd a llai hyderus, heb yr angen am isadeiledd pwrpasol.

Gellir defnyddio symbolau beicio i arwyddo'r llwybr beicio a nodi'r lleoliad cywir ar gyfer beicio ar y ffordd gerbydau.





### TWMPATH FFORDD/MYNEDIAD DRWY GILFFORDD

Mae mynediad drwy gilffordd yn golygu codi a chulhau ceg y gyffordd i fyrhau'r pellter croesi. Mae'r ffordd gerbydau hefyd yn cael ei chodi i lefel y droedffordd a'i phalmantu mewn ffordd debyg i'r droedffordd i annog gyrwyr i ildio i gerddwyr.

Mae ffordd wedi'i chodi'n dwmpath ffordd ag arwyneb gwastad. Mae'n pwysleisio presenoldeb cyffordd ac yn lleihau cyflymder cerbydau ar y ffordd i'r cyfleuster croesi. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfforddus i gerddwyr groesi'r ffordd.